Hysbysiad Preifatrwydd Gweinidogion

1 Gwybodaeth Gyffredinol

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru ('EBC') wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Dan gyfraith diogelu data, mae EBC yn "rheolwr data". Mae hyn yn golygu bod EBC yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi ac mae'n gyfrifol am benderfynu sut y caiff yr wybodaeth bersonol honno ei storio a'i defnyddio.

Fel rheolwr data, mae gofyniad cyfreithiol ar i EBC ddarparu gwybodaeth benodol i'r unigolion hynny yr ydym yn casglu, cael, storio a defnyddio eu gwybodaeth bersonol. Mae'r wybodaeth honno wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon (ein "Hysbysiad Preifatrwydd").

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddogfen hon (ynghyd ag unrhyw Hysbysiadau Preifatrwydd eraill y byddwn yn eu rhannu â chi ar adegau penodol), fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol a'r hawliau sydd gennych o ran eich gwybodaeth bersonol.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn berthnasol i'n holl Weinidogion mewn eglwysi/ gofalaethau.

Bydd EBC yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw amdanoch fod:

- Yn cael ei defnyddio'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw;
- Wedi'i chasglu at y dibenion dilys yr ydym wedi'u hesbonio'n eglur i chi yn unig ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny;
- Yn berthnasol i'r dibenion y dywedwyd wrthych chi amdanynt ac at y dibenion hynny yn unig;
- Yn gywir ac yn gyfredol;
- Yn cael ei chadw cyn hired ag y bo angen ac at y dibenion y dywedwyd wrthych yn unig;
- Wedi'i chadw'n ddiogel.

2 Pa Wybodaeth Bersonol sydd gennym amdanoch chi?

Fel Gweinidog EBC gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth bersonol benodol sy'n ymwneud â'ch sefydlu fel Gweinidog yn EBC.

Mae cyfraith diogelu data yn diogelu gwybodaeth bersonol sydd mewn gwirionedd yn unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn oddi wrthi. Mae yna fath o wybodaeth bersonol sy'n cael ei hamddiffyn yn ychwanegol oherwydd ei natur sensitif neu breifat, y'i gelwir weithiau'n 'wybodaeth bersonol categori arbennig', sef gwybodaeth bersonol am hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur (neu beidio), gwybodaeth am eneteg, gwybodaeth biometrig (pan y'i defnyddir er mwyn adnabod unigolyn) a gwybodaeth am iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu naill ai'n uniongyrchol oddi wrthych chi neu weithiau gan drydydd parti, gan gynnwys gweinidogion/arweinwyr eglwysig, Enwadau eraill y buoch yn eu gwasanaethu, cyn gyflogwyr, cyn diwtoriaid Coleg, asiantaethau gwirio credyd neu asiantaethau gwirio cefndir eraill, gweinyddwr pensiwn, gweithwyr meddygol proffesiynol, gweithwyr eraill, y Swyddfa gartref, cyfleusterau mewnrwyd a rhyngrwyd, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'r Panel

Diogelwch Cydenwadol

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod eich cyfnod o wasanaeth gydag EBC yn cynnwys:

- eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt*
- eich dyddiad geni*
- eich rhyw
- eich manylion teuluol
- eich ffotograff, a/neu recordiad llafar a/neu fideo ohonoch, sy'n ymwneud â'ch gwaith
- eich addysg a'ch cymwysterau*
- eich sgiliau, profiad ac aelodaeth o gyrff proffesiynol*
- eich rhif Yswiriant Gwladol a'ch cod treth*
- eich manylion cyswllt brys a'ch perthynas agosaf
- eich manylion banc, manylion cyflogres a gwybodaeth am eich statws treth*
- eich cydnabyddiaeth, manylion pensiwn a budd-daliadau
- tystiolaeth o'ch gallu i weithio yn y DU, eich cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo*
- eich trwydded yrru
- gwybodaeth a ddarparwyd amdanoch gan Enwad y bu ichwi ei wasanaethu yn y gorffennol, eich cyn gyflogwr(wyr) a chanolwyr eraill
- eich hanes gwaith
- gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses o'ch derbyn yn Weinidog a gedwir gennym yn ystod eich tymor o wasanaeth
- gwybodaeth a manylion yn ymwneud â'r cwestiwn a yw Gweinidog yn gymeradwy (*in good standing)* i dderbyn galwad
- eich Memorandwm o Ddealltwriaeth
- manylion am unrhyw swyddi neu benodiadau neu fuddiannau busnes eraill sydd gennych
- unrhyw ddamweiniau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith
- unrhyw hyfforddiant a dderbyniwyd gennych
- unrhyw achos o ddisgyblu, achwyniad neu faterion eraill sy'n ymwneud â thymor eich gwasanaeth neu y gallwch ddarparu gwybodaeth amdanynt
- manylion am eich gwaith fel Gweinidog yn ystod tymor eich gwasanaeth
- eich cofnod absenoldebau (e.e.nodyn cymwyster meddygol i weithio (*fit note)*)
- unrhyw wybodaeth bersonol arall yr ydych yn ei rhannu gyda EBC, gan gynnwys eich ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- unrhyw addasiad(au) rhesymol a wnaed i'ch rôl neu eich gwaith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- deunydd ffilm CCTV ac unrhyw wybodaeth arall a gasglwyd drwy ddulliau electronig
- gwybodaeth am eich defnydd o TG, systemau cyfathrebu a systemau eraill EBC
- manylion am eich defnydd o gyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â EBC fel Facebook, Twitter, Instagram neu LinkedIn
- unrhyw wybodaeth arall sydd ar eich ffeil personél
- gwybodaeth am eich profiad ysbrydol a'ch profiad yn eich cyfnod o wasanaeth

Gofynnir am rywfaint o'r data personol am fod gofyniad cyfreithiol neu ofyniad o dan amodau eich Memorandwm o Ddealltwriaeth neu reolau EBC i gael a defnyddio'r wybodaeth honno neu fod angen i chi ddarparu'r wybodaeth er mwyn i ni allu ymrwymo i Femorandwm o Ddealltwriaeth gyda chi (nodir yr wybodaeth hon gyda * uchod). Bydd methu â darparu gwybodaeth benodol yn atal EBC rhag cyflawni'r gofynion yn eich Memorandwm o Ddealltwriaeth.

3 Ar gyfer beth fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol a beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny?

Defnyddir yr wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi gan EBC ar gyfer nifer o wahanol ddibenion, a restrir isod. Dan y gyfraith diogelu data, mae angen sail gyfreithiol ddilys ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, ac isod nodir y seiliau cyfreithiol a ddefnyddir gan EBC.

3.1 Bydd yr wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch yn cael ei defnyddio er mwyn:

- cydymffurfio â, a dangos cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol, megis sicrhau bod gennych hawl cyfreithiol i weithio yn y DU, didynnu cyfraniadau PAYE ac Yswiriant Gwladol, cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyfreithiau eraill sy'n berthnasol
- atal twyll
- cydymffurfio â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch
- cydymffurfio â, a dangos cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion rheoleiddiol

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn ei defnyddio er mwyn prosesu eich gwybodaeth bersonol fydd bod hynny'n angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

3.2 Bydd yr wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch hefyd yn cael ei defnyddio er mwyn:

- cydymffurfio â gofynion ein Memorandwm o Ddealltwriaeth â chi a rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau
- arolygu eich sefydlu fel Gweinidog
- talu i chi a darparu unrhyw fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt, gan gynnwys pensiwn
- delio ag unrhyw faterion disgyblu ac achwyniadau a all godi yn ymwneud â chi neu efallai y gallwch chi ddarparu gwybodaeth berthnasol amdanynt
- cofnodi eich absenoldebau o'r gwaith
- i ddibenion gweinyddol cyffredinol mewn perthynas â'ch tymor o wasanaeth

Ym mhob un o'r achosion hyn, y sail gyfreithiol y bydd EBC yn ei defnyddio er mwyn prosesu eich gwybodaeth bersonol fydd bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyfarfod â gofynion y Memorandwm o Ddealltwriaeth sydd rhyngom ni.

3.3 Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch er mwyn:

- rheoli a gweinyddu, gan gynnwys cyfrifo ac archwilio
- ymateb i geisiadau am dystlythyrau, neu gais am wybodaeth i ddarganfod fod Gweinidog yn gymeradwy (*in good standing)*
- monitro cydymffurfiaeth ag unrhyw un o reolau, polisïau a gweithdrefnau EBC
- gwneud penderfyniad am adolygu cydnabyddiaeth
- casglu gwybodaeth, clywed achosion a gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag ataliad neu terfynu gwasanaeth Gweinidog lle profir cyhuddiadau yn ei (h)erbyn
- arolygu trefn a chynhaliaeth y Weinidogaeth, ac ystyried holl faterion sy'n ymwneud â'r eglwysi
- goruchwylio rhyddhau Gweinidogion o eglwysi / gofalaethau
- asesu gofynion addysg, hyfforddiant a datblygu

- sicrhau diogelwch y rhwydwaith a'r wybodaeth, gan gynnwys atal mynediad anawdurdodedig i'n cyfrifiaduron a'n systemau cyfathrebu electronig ac atal dosbarthiad meddalwedd maleisus.
- er mwyn gweddïo dros eich gwaith
- byddwn yn defnyddio'r ffaith eich bod yn Weinidog at ddibenion ymchwil hanesyddol.

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn ei defnyddio er mwyn prosesu eich gwybodaeth bersonol fydd ei bod o ddiddordeb dilys i ni wneud hynny. Ein diddordebau dilys penodol yw:

- I weithredu mewn modd sy'n deg a rhesymol, a sydd yn anrhydeddu Duw mewn perthynas â chyfnod eich gwasanaeth a tymor gwasanaeth Gweinidogion eraill EBC, ac i fedru dangos arfer da a/neu
- cydymffurfio â ac arddangos cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol a/neu reolau, polisïau a gweithdrefnau EBC a/neu
- ein galluogi i reoli EBC yn effeithiol ac yn effeithlon

4 Pa Wybodaeth Bersonol Categori Arbennig sydd gennym amdanoch chi?

Bydd angen i ni gadw rhywfaint o wybodaeth bersonol categori arbennig amdanoch chi a allai fod yn berthnasol i'ch cyfnod o wasanaeth, megis eich:

- tarddiad hiliol neu ethnig
- barn wleidyddol
- credoau crefyddol neu athronyddol
- aelodaeth o undeb llafur
- iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys manylion am unrhyw anabledd)
- cyfeiriadedd rhywiol
- manylion am unrhyw anabledd hysbys
- cyflawniad neu gyflawniad honedig unrhyw drosedd, gan gynnwys canlyniadau gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ('DBS')

5 I beth fydd eich gwybodaeth bersonol categori arbennig yn cael ei defnyddio a beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny?

Bydd EBC yn defnyddio'r wybodaeth bersonol categori arbennig a gedwir amdanoch ar gyfer nifer o wahanol ddibenion a restrir isod. Mae cyfraith diogelu data yn gwahardd EBC rhag prosesu unrhyw wybodaeth bersonol categori arbennig oni bai ein bod yn gallu bodloni o leiaf un o'r amodau a osodwyd gan y gyfraith diogelu data. Rhestrir isod yr amodau penodol a ddefnyddir wrth brosesu data categori arbennig.

5.1 Defnyddir yr wybodaeth bersonol categori arbennig a gedwir amdanoch er mwyn:

- monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn yr achos hwn, yr amod a ddibynnir arni ar gyfer prosesu'r wybodaeth yw'r angen i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth am eu bod o gryn les i'r cyhoedd, hynny yw, er mwyn nodi neu adolygu bodolaeth neu absenoldeb cyfartaledd o ran cyfle neu driniaeth rhwng grwpiau o bobl a nodir mewn perthynas â'r categori hwnnw, gyda'r bwriad o hyrwyddo neu gynnal cydraddoldeb o'r fath.

5.2 Defnyddir yr wybodaeth bersonol categori arbennig a gedwir amdanoch hefyd er mwyn:

- cydymffurfio ac arddangos cydymffurfiaeth ag unrhyw gyfreithiau perthnasol ac arfer da
- cydymffurfio ac arddangos cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion rheoleiddiol
- delio ag unrhyw faterion disgyblu ac achwyniadau a all godi sy'n ymwneud â chi neu eraill y gallech chi ddarparu gwybodaeth berthnasol amdanynt
- cofnodi eich absenoldebau o'r gwaith
- darparu unrhyw fudd-daliadau iechyd y gallech fod â hawl iddynt
- asesu eich ffitrwydd ar gyfer gwaith
- gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i'ch rôl

Yn yr achosion hyn, yr amodau a ddibynnir arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth yw eu bod yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol a gweithredu hawliau cyfreithiol penodol.

5.3 Bydd bod â rôl Gweinidog yn datgelu eich credoau crefyddol neu athronyddol. Pan fydd EBC yn prosesu gwybodaeth sy'n datgelu eich cred grefyddol, gwneir hyn ar y sail eich bod yn amlwg wedi gwneud yr wybodaeth honno'n gyhoeddus.

5.4 Mewn achosion lle bo hawliad wedi'i wneud yn erbyn EBC neu os oes perygl posibl o anghydfod neu hawliad cyfreithiol, gall fod angen i EBC brosesu eich gwybodaeth bersonol categori arbennig os oes angen hynny ar gyfer pennu, gweithredu neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

5.5 Efallai y bydd amgylchiadau pan fo angen i EBC brosesu eich gwybodaeth bersonol categori arbennig, yn enwedig gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch iechyd, lle mae angen diogelu'ch buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac na allwch chi roi eich caniatâd.

5.6 Lle bo hynny'n briodol, bydd EBC yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol fel rhan o'r broses o'ch cymeradwyo neu efallai y byddwn yn cael gwybodaeth o'r fath yn uniongyrchol gennych chi yn ystod eich tymor o wasanaeth.

Dim ond pan fo'r gyfraith yn caniatáu inni wneud hynny y bydd EBC yn defnyddio gwybodaeth yn ymwneud ag euogfarnau troseddol. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd pan fo prosesu o'r fath yn angenrheidiol am resymau o les sylweddol i'r cyhoedd, megis atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon, at ddibenion diogelu, er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag anonestrwydd, i atal twyll neu amheuaeth o derfysgaeth neu wyngalchu arian.

Yn llai arferol, efallai y byddwn yn defnyddio gwybodaeth yn ymwneud ag euogfarnau troseddol pan fo hynny'n angenrheidiol o ran hawliadau cyfreithiol, lle mae angen diogelu'ch buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu os ydych chi eisoes wedi gwneud yr wybodaeth yn gyhoeddus.

6 Rhagor o wybodaeth gyffredinol am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Bydd EBC yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at y dibenion y'i casglwyd yn wreiddiol yn unig, oni bai ein bod yn ystyried yn rhesymol bod angen i ni ei defnyddio at ddiben arall a bod y diben hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os oes angen i EBC ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddiben sydd

heb gysylltiad â'r diben gwreiddiol byddwn yn eich hysbysu ac yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n caniatáu i'ch gwybodaeth bersonol gael ei defnyddio.

Noder y gall EBC brosesu eich gwybodaeth bersonol, heb i chi wybod hynny na rhoi eich caniatâd, yn unol â'r rheolau uchod, lle mae hyn yn ofynnol neu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith.

Nid yw EBC yn gwneud unrhyw benderfyniadau neu broffilio awtomatig mewn perthynas â chi.

7 Gyda phwy y rhennir eich gwybodaeth?

Bydd EBC yn cadw eich data personol. Bydd eich data personol yn cael ei rannu'n fewnol gydag unigolion eraill lle mae'n rhesymol bod angen hyn ar gyfer y dibenion prosesu a nodir yn adran 3 uchod, er enghraifft, fel Gweinidog, efallai y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu er mwyn i eglwys allu trefnu i chi gynnal gwasanaeth.

O bryd i'w gilydd bydd angen i ni rannu'ch gwybodaeth gyda phobl a sefydliadau allanol. Byddwn yn gwneud hynny pan fo gennym sail ddilys neu gyfreithlon ar gyfer gwneud hynny ac yn unol â'n rhwymedigaethau dan gyfreithiau diogelu data yn unig.

Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei datgelu i:

- **Gyllid a Thollau EM** (HMRC) ynglŷn â'ch cyflog a'ch budd-daliadau
- **Banciau a sefydliadau ariannol eraill** (Barclays) ynglŷn â'ch cyflog a'ch budd-daliadau
- **Darparwyr pensiynau** (Barnett Waddingham, Aegon, Sarasin & Partners LLP, Liverpool Victoria Friendly Society Limited) er mwyn darparu a gweinyddu'ch pensiwn
- **Darparwr cyflogres** (Iris, Lake Financial) er mwyn i chi gael eich talu
- **Cwmnïau a busnesau sy'n darparu neu'n gweinyddu unrhyw fudd-daliadau a gynigir** (WHA).
- **Pobl eraill sy'n ein helpu** i ddarparu ein gwefan, rhwydwaith WIFI mewnol, sy'n cynnwys arbenigwyr technoleg gwybodaeth sy'n dylunio a chynnal ein gwefan (B2B, Microsoft, BT)
- **Ein hyswirwyr a'n broceriaid yswiriant** (Jelf (Bluefin), Congregational & General) sy'n darparu yswiriant cynhwysfawr i ni rhag y peryglon o redeg eglwys
- **Asiantaethau cyflogaeth a recriwtio a sefydliadau all-leoli** (Hays)
- **Cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr** megis RICS, Y Gymdeithas Gyfreithiol
- **Ein cynghorwyr proffesiynol** gan gynnwys ein cyfrifwyr pan fydd angen yr wybodaeth arnynt er mwyn rhoi cyngor proffesiynol inni (PWC, ADVE, Eversheds, Geldards, Keely's, Investec, CDM, Cyfreithwyr yr Henaduriaethau a Asiantwyr Eiddo)
- **Iechyd Galwedigaethol a gweithwyr meddygol proffesiynol eraill, gan gynnwys sefydliadau cymdeithasol a lles,** er mwyn rhoi barn feddygol i ni ynglŷn ag unrhyw gyflwr meddygol, salwch neu anabledd a allai fod gennych neu y gallech ei ddatblygu yn ystod eich tymor gwasanaeth (Miller Health)
- **Yr Heddlu, awdurdodau lleol, y llysoedd** ac unrhyw awdurdod llywodraeth arall os ydynt yn gofyn i ni wneud hynny (ond dim ond os yw hi'n gyfreithlon i ni wneud hynny)
- **Pobl eraill sy'n gwneud cais gwrthrych am wybodaeth,** pan fo gennym hawl cyfreithiol i wneud hynny
- **Achwynwyr,** pan fo'n angenrheidiol i ni ymateb i unrhyw gwynion a dderbynnir
- **Pan fo'n ofynnol i ni wneud hynny,** e.e. er mwyn cydymffurfio â gorchymyn llys
- **Darpar gyflogwyr** mewn ymateb i geisiadau am dystlythyron
- **Sefydliadau addysgol, cyrff arholi, darparwyr cyrsiau** (Coleg y Bedyddwyr, Coleg yr Annibynwyr Cymraeg, Union, Prifysgolion a Cholegau eraill, ACAS) mewn perthynas ag unrhyw hyfforddiant yr ydych yn, neu wedi, ymgymryd ag ef

- **Eich teulu, neu eraill yn eu lle**
- **Cyfieithwyr sy'n cyfieithu dogfennau neu sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd** (e.e. Prysg, Atebol)
- **Y Panel Diogelwch Cydenwadol** i bwrpas diogelu
- **Sefydliadau cydenwadol** sy'n rhan o'ch gwaith (e.e. Cytûn, CLAS) neu yn rhan o'ch ymrwymiadau atebolrwydd (e.e. Cyngor y Genhadaeth Fydeang)
- **Eglwys eraill** sy'n rhan o'n ymrwymiadau atebolrwydd (e.e. Eglwys Bresbyteraidd yr India) neu fel rhan o'ch gwaith (e.e. Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, Yr Eglwys yng Nghymru)
- **Asiantaethau teithio** sy'n trefnu teithiau awyren (e.e. Key Travel)
- **Gwestai a Phrifysgolion i drefnu llety** (e.e. Prifysgol Glyndwr, Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
- **Darparwyr gwasanaethau archif** (Restore, Llyfrgell Genedlaethol Cymru) i archifo dogfennau
- **Darparwyr gwasanaethau argraffu** (e.e. Gwasg y Bwthyn, Cyhoeddiadau'r Gair, Vista) i argraffu dogfennaeth neu gylchlythyron
- **Rhentu Doeth Cymru** i gyfarfod ag ymrwymiadau cyfreithiol
- **Comisiwn Elusennau** i gyfarfod â gofynion rheoleiddiol
- **Adran Newyddion yr eglwysi yn y papur bro lleol**

8 Trosglwyddo'ch Gwybodaeth yn Rhyngwladol

Weithiau bydd angen i ni anfon eich gwybodaeth bersonol i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, er enghraifft i'r eglwys sy'n eich anfon neu at Gyngor y Genhadaeth Fydeang neu os ydych yn ymweld ag eglwysi Presbyteraidd yn y gwledydd hyn. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd yn rhaid anfon peth o'ch gwybodaeth bersonol i'r eglwys dramor mewn perthynas â'ch tymor o wasanaeth neu er mwyn trefnu'ch ymweliad. Pan gyfyd yr angen i wneud hyn byddwn ond yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol os yw'n naill ai yn angenrheidiol er mwyn cyflawni cytundeb (cytundeb a arwyddir gennych neu gytundeb mae i chi fudd ohono) neu os byddwn wedi derbyn caniatâd penodol gennych i wneud hyn.

9 Am ba hyd y cedwir eich gwybodaeth?

Er mwyn bodloni rhwymedigaethau diogelu data a phreifatrwydd, nid yw EBC yn cadw eich gwybodaeth am gyfnod hwy nag sydd ei angen at y dibenion y'i casglwyd gan EBC yn y lle cyntaf.

Yn y rhan fwyaf o achosion, golyga hyn y bydd EBC yn cadw eich gwybodaeth am gyfnod eich gwasanaeth ac am gyfnod o 7 mlynedd wedi hynny. Y rheswm dros gadw eich data personol am y cyfnod hwn yw er mwyn cydymffurfio â gofynion Cyllid a Thollau EM ac oherwydd y gellir gwneud hawliadau am hyd at 6 mlynedd ar ôl i'ch tymor o wasanaeth ddod i ben.

Mae nifer o'n cyhoeddiadau a'n dogfennaeth e.e. Blwyddiadur a Dyddiadur, yn cael ei archifo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru at ddibenion ymchwil hanesyddol, ac mae'n bosib y gallai'r cyhoeddiadau a'r dogfennau gynnwys eich manylion personol. Mae angen caniatad Cymdeithas Hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gael mynediad i'r greirfa.

Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, mae EBC yn ystyried maint, natur a sensitifrwydd y data personol, y niwed posibl a ddeuai o ddefnyddio neu ddatgelu'ch data personol heb awdurdod, y dibenion yr ydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer ac a ellir cyflawni'r dibenion hynny mewn modd arall, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

10 Hawliau'r unigolyn

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o wahanol hawliau i unigolion o ran eu data. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod ac yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau:

- **Cais am fynediad** i'ch gwybodaeth bersonol (a elwir fel arfer yn "gais gwrthrych am wybodaeth"). Mae hyn yn caniatáu i chi gael copi o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei brosesu'n gyfreithlon.

- **Cais am gywiro'r** wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch. Mae hyn yn caniatáu i chi gael cywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir a gedwir amdanoch.

- **Cais am ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn caniatâu i chi ofyn i EBC ddileu gwybodaeth bersonol lle nad oes rheswm da dros barhau i'w brosesu. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i EBC ddileu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu iddo gael ei brosesu (gweler isod).

- **Gwrthwynebu prosesu** eich gwybodaeth bersonol pan mai buddiannau cyfreithlon (neu rai trydydd parti) yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n eich gwneud yn awyddus i wrthwynebu'r prosesu ar y sail hon. Mae gennych hefyd hawl i wrthwynebu pan fo eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

- **Cais am gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn caniatâu i chi ofyn am atal prosesu'r wybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft, os ydych am sicrhau ei gywirdeb neu'r rheswm dros ei brosesu.

- **Cais am hygludedd data** eich gwybodaeth bersonol. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gennych yr hawl i ofyn am gopi electronig o'ch gwybodaeth bersonol naill ai ar gyfer eich defnydd eich hun neu er mwyn ei rannu â sefydliad arall. Pan fo'r hawl hon yn berthnasol, gallwch ofyn i EBC drosglwyddo eich data personol yn uniongyrchol i'r parti arall lle bo'n ymarferol.

Cysylltwch â Phennaeth Cefnogaeth Strategol yn Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol os am adolygu, gwirio, cywiro neu ofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich data personol, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall.

Nid oes angen talu ffi fel rheol

Nid oes angen i chi dalu ffi er mwyn cael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (nac er mwyn arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, gellir codi ffi resymol os yw'ch cais am fynediad yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Neu gall EBC wrthod cydymffurfio â'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

Beth y gellir fod ei angen gennych chi

Efallai y bydd angen i EBC ofyn am wybodaeth benodol gennych er mwyn helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawl i gael mynediad at yr wybodaeth (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall er mwyn sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw berson nad oes ganddo hawl i'w dderbyn.

11 Y gallu i dynnu caniatâd yn ôl

Pan fo'ch data personol yn cael ei brosesu ar sail eich caniatâd neu eich caniatâd penodol, mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd i'r broses yn ôl ar unrhyw adeg. Gallwch wneud hyn trwy e-bostio Pennaeth Cefnogaeth Strategol yn Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol. Ni fydd unrhyw dynnu caniatâd yn ôl yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu ar eich data personol sy'n seiliedig ar ganiatâd a roddwyd cyn ein hysbysu eich bod yn tynnu eich caniatâd yn ôl.

12 Cywirdeb

Os yw eich manylion personol yn newid yn ystod eich tymor o wasanaeth, dylech gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol yn Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol i'w hysbysu o'r newid a rhoi'r wybodaeth gywir iddynt.

13 Diweddariadau i'r polisi preifatrwydd hwn

Mae'r modd y defnyddir eich gwybodaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Wrth wneud hynny, gall EBC newid y math o wybodaeth a gesglir, sut y caiff ei storio, gyda phwy y caiff ei rhannu a sut y gweithredir arni.

O ganlyniad, efallai y bydd angen newid y polisi preifatrwydd hwn o dro i dro er mwyn ei gadw'n gywir ac yn gyfredol.

14 Amdanom ni

EBC yw rheolwr data'r wybodaeth a ddarperir gennych. Mae'r term "rheolwr data" yn ymadrodd cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r person neu'r endid sy'n rheoli'r modd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu.

15 I gael mwy o wybodaeth am eich hawliau neu wneud cwyn

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn rheoleiddio materion diogelu data a phreifatrwydd yn y DU. Maent yn gwneud llawer o wybodaeth yn hygyrch ar eu gwefan ac maent yn sicrhau bod manylion cofrestredig yr holl reolwyr data, megis EBC, ar gael yn gyhoeddus. Mae'r wybodaeth ar gael ar eu gwefan.

Gallwch wneud cwyn i'r ICO unrhyw bryd ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth. Fodd bynnag, gobeithiwn y byddech yn ystyried codi unrhyw fater neu gwyn sydd gennych gyda ni yn gyntaf. Byddwn yn gwneud ein gorau bob amser i ddatrys unrhyw broblemau sydd gennych.

16 Cysylltu

Mae croeso i chi gysylltu ag EBC unrhyw bryd i drafod eich gwybodaeth.

Dyma'r manylion cyswllt: Pennaeth Cefnogaeth Strategol yn Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol 02920627465.